Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Caban Aur

## Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2019

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Caban Aur

Mae Caban Aur yn ysgol fach annibynnol ym mherchnogaeth Afon Goch Children's Homes Limited. Mae wedi'i lleoli o fewn ei thir ei hun, mewn ardal wledig ar Ynys Môn, wedi'i hamgylchynu gan warchodfa natur. Mae'r ysgol yn darparu addysg i ddisgyblion sy'n derbyn gofal gan eu hawdurdodau lleol ac sydd ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Mae disgyblion yn preswylio yn un o ddau gartref plant y cwmni. Ar hyn o bryd, mae un disgybl ar gofrestr yr ysgol. Gall disgyblion sy'n gadael yr ysgol ar ddiwedd cyfnod allweddol 4 barhau i breswylio yn Afon Goch a mynychu coleg addysg bellach lleol.

Mae adeilad yr ysgol yn cynnwys ystafell ddosbarth fach yn y cartrefi plant. Hefyd, mae'r ysgol yn defnyddio ardaloedd eraill yn y cartref, fel y gegin a'r lolfa, i addysgu agweddau ar y cwricwlwm. Caiff cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau awyr agored yn yr ardal wledig leol eu trefnu bob wythnos, fel rhan o'r amserlen.

Penodwyd pennaeth newydd ym mis Medi 2019. Caiff ei gefnogi gan ddau athro rhan-amser a thîm o staff addysg awyr agored.

## Prif gryfderau

### *Cryfderau*

Mae'r ysgol yn dechrau defnyddio arbenigedd allanol yn effeithiol i werthuso'r hyn mae'n ei gynnig, a gwneud gwelliannau.  Mae'r cymorth hwn wedi rhoi arweiniad defnyddiol i'r perchennog ynglŷn â phenodi'r pennaeth newydd.  Mae'r pennaeth newydd yn dechrau cael effaith gadarnhaol.  Er enghraifft, mae wedi mabwysiadu ymagweddau newydd at asesiadau gwaelodlin disgyblion.  Mae'r datblygiad hwn yn galluogi staff i gynllunio cwricwlwm priodol sy'n gweddu'n dda i anghenion disgyblion.

Mae'r ysgol wedi sefydlu cysylltiadau cadarnhaol ag ysgol uwchradd leol, sy'n darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion Blwyddyn 11 ennill achrediad TGAU mewn amrywiaeth o bynciau.  Wrth iddynt ddod at ddiwedd eu cyfnod yn yr ysgol, mae hyn yn helpu disgyblion i ennill amrywiaeth o gymwysterau, yn unol â'u diddordebau a'u hanghenion, gan gynnwys achrediad am eu dysgu awyr agored.  Rhoddir ystyriaeth ofalus i opsiynau addysg bellach, ac o ganlyniad, mae pob un o'r disgyblion a adawodd yr ysgol y llynedd wedi cynnal eu lleoliadau coleg.

Mae'r ysgol yn canolbwyntio'n briodol ar ddatblygu arferion bwyta a byw yn iach y disgyblion.  Er enghraifft, mae pob un o'r prydau bwyd yn flasus, ac yn cynnwys cydbwysedd maethol.  Mae staff a disgyblion yn rhannu amseroedd prydau bwyd o gwmpas bwrdd y gegin mewn awyrgylch teuluol gofalgar.  Mae staff a disgyblion yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd hyn i sgwrsio a thrafod cynlluniau gyda'i gilydd heb i unrhyw un darfu arnynt.

Caiff disgyblion gyfle i gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau dysgu awyr agored cyffrous ac ysgogol, fel cerdded mynyddoedd, dringo a chaiacio.  Mae disgyblion yn elwa ar y gweithgareddau hyn ac yn llwyddo'n dda i gael achrediad am eu dysgu.

### *Meysydd i'w datblygu*

Mae'r ysgol wrthi'n gwerthuso a datblygu ei chwricwlwm.  Mae eisoes wedi gwneud newidiadau buddiol i gwricwlwm cyfnod allweddol 4 i sicrhau bod hwn yn diwallu anghenion a diddordebau disgyblion.  Fodd bynnag, mae'r newidiadau yn anghyflawn ac mae angen amser i'w datblygu o dan arweinyddiaeth y pennaeth newydd.

Er bod yr ysgol wedi cynyddu'r defnydd o wersi technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) o fewn gwersi, nid yw athrawon yn rhoi digon o gyfleoedd cynlluniedig i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ar draws y cwricwlwm.

Mae ystod addas o bolisïau a gweithdrefnau addysg ar waith.  Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn adlewyrchu'r newidiadau diwygiedig i arfer a'r cwricwlwm, fel y defnydd cynyddol o achrediad Lefel Mynediad.

## Argymhellion

**Dylai'r ysgol:**

**A1. Sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd rheolaidd ar draws y cwricwlwm i ddatblygu eu medrau TGCh**

**A2. Cwblhau diwygio'r cwricwlwm**

**A3. Diweddaru polisïau a gweithdrefnau addysg perthnasol i adlewyrchu'r arfer ddiwygiedig a newidiadau i'r cwricwlwm**

**A4. Ystyried datblygu bwrdd annibynnol i ddarparu cymorth a herio gwaith yr ysgol**

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

**Argymhelliad 1: Sicrhau arweinyddiaeth briodol a chyson i'r ysgol**

Dechreuodd y pennaeth presennol yn ei swydd ym mis Medi 2019.

Cyn ei benodi, roedd helbul sylweddol yn arweinyddiaeth yr ysgol, dros flynyddoedd lawer. Fodd bynnag, yn ddiweddar, mae'r perchennog wedi cymryd camau priodol i sicrhau addysg gyson i'r disgyblion. Mae'r camau gweithredu yn effeithiol, ac o ganlyniad, llwyddodd pob un o ddisgyblion Blwyddyn 11 i ennill amrywiaeth o gymwysterau TGAU, ac mae pob un ohonynt wedi mynd ymlaen i leoliad mewn addysg bellach, ac wedi cynnal y lleoliad.

Wedi iddo gael ei benodi, aeth y pennaeth newydd ati'n briodol i ymgymryd â hyfforddiant priodol wedi'i ddarparu gan y sefydliad, i ddeall y model therapiwtig a ddefnyddir yn yr ysgol. Ers hynny, mae wedi dechrau adolygu'r cwricwlwm, polisïau addysg ac arferion i sicrhau bod yr ysgol yn cynllunio a chyflwyno ei darpariaeth yn unol ag anghenion disgyblion. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i farnu effeithiolrwydd y gwaith hwn.

**Argymhelliad 2: Gwneud yn siŵr bod y disgyblion yn cael cyfleoedd rheolaidd yn y cwricwlwm i ddatblygu eu cymhwysedd digidol**

Ers yr ymweliad diwethaf, mae athrawon wedi gwella'r cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu cymhwysedd digidol. O ganlyniad, mae disgyblion wedi cael profiadau ehangach i ddysgu ac ymarfer eu medrau TGCh ar draws y cwricwlwm. Mae'r rhain yn cynnwys defnyddio platfform ar-lein i ddatblygu eu medrau teipio cyffwrdd, gan ddefnyddio meddalwedd dysgu iaith fel offeryn i gefnogi dysgu Cymraeg a defnyddio ffotograffiaeth i greu arddangosfeydd deniadol ar y waliau.

Mae'r ysgol yn dechrau gwneud defnydd da o ffotograffiaeth a fideo i gofnodi cyflawniad disgyblion mewn addysg awyr agored. Mae hyn yn cefnogi asesiad disgyblion o'u dysgu, ac yn galluogi disgyblion eraill i rannu a dathlu eu cynnydd.

Er gwaethaf y gwelliannau hyn, nid yw cynllunio athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn cael dull cyson i ddatblygu eu medrau TCGh ar draws y cwricwlwm.

Mae adnoddau i gynorthwyo disgyblion i ddatblygu eu medrau TGCh yn annigonol.

**Argymhelliad 3: Cynyddu cyfleoedd i ddatblygu medrau bywyd disgyblion a'u dealltwriaeth o fyd gwaith**

Mae'r ysgol wedi diwygio'r cwricwlwm addysg bersonol a chymdeithasol i ddiwallu anghenion disgyblion yn well. Mae bellach yn cynnwys meysydd fel y byd gwaith, cyllid personol a chyllidebu. Erbyn hyn, gall disgyblion ennill achrediad am eu dysgu yn y meysydd hyn.

Mae'r ysgol wedi gwneud cysylltiadau defnyddiol ag ystod fach o ddarparwyr gwaith lleol, ac wedi trefnu bod disgyblion yn ymgymryd â phrofiad gwaith gwerthfawr.

Mae’r ysgol yn ystyried yn ofalus pa mor agored i niwed yw disgyblion unigol wrth ystyried unrhyw leoliadau gwaith posibl. Mae staff yn cynnal asesiadau addas o’r risgiau, ac yn gwneud cynlluniau priodol i sicrhau diogelwch disgyblion yn ystod profiad gwaith.

**Argymhelliad 4: Gwella cynllunio a gwerthuso addysg awyr agored a sicrhau bod disgyblion yn gallu ennill achrediad perthnasol ar gyfer eu cyflawniadau**

Ers yr ymweliad diwethaf, mae’r ysgol wedi penodi staff newydd, ac ailgynlluniwyd y rhaglen addysg awyr agored. Erbyn hyn, mae gan yr ysgol gynlluniau a threfniadau addas ar gyfer cyflwyno ystod briodol o addysg awyr agored gyffrous, yn cynnwys dringo, cerdded mynyddoedd a chaiacio. Mae trefniadau priodol ar gyfer gwerthuso effeithiolrwydd y gweithgareddau, sydd wedi eu cysylltu’n bennaf â dysgu achrededig perthnasol. Mae cyfarfodydd staff wythnosol yn galluogi diweddariadau a thrafodaethau rheolaidd am briodoldeb pob gweithgaredd ar gyfer pob disgybl.

Mae’r ysgol wedi datblygu asesiadau risg addas ar gyfer ystod y gweithgareddau, ac ar gyfer ymgysylltiad disgyblion unigol ym mhob gweithgaredd. Mae staff yn gwneud defnydd effeithiol o’r asesiadau risg i lywio arfer.

Mae staff sy’n cyflwyno’r cwricwlwm awyr agored yn meddu ar gymwysterau a phrofiad da yn y maes gwaith hwn.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

***Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol***

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

***Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion***

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

***Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion***

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

***Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff***

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 4.

***Safon 5: Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion***

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

***Safon 6: Darparu gwybodaeth***

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 6.

***Safon 7: Y modd yr eir i'r afael â chwynion***

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Llywodraeth Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad cyfyngedig hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag adran 163 Deddf Addysg 2002. Prif ddiben arolygu o dan yr adran hon yw adrodd ar gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol 2003. Mewn ysgolion sy'n darparu addysg feithrin nas cynhelir, mae'r adroddiad hwn hefyd yn bodloni gofynion Atodlen 26 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 17/02/2020